2023/2024

# Adeiladu eich brand

## Dyfodol Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd



# Prifysgol Caerdydd - Dyfodol Myfyrwyr
# **Strategaeth Partneriaeth Brand**

Rydym yn cynnig cyfleoedd gwych i adeiladu eich brand yma ym Mhrifysgol Caerdydd, a hynny trwy weithgareddau hyrwyddo penodol. Rydym wedi ein lleoli yng nghanol y ddinas a gallwn hyrwyddo eich cwmni/brand i dros 33,000 o fyfyrwyr trwy amrywiaeth o sianeli marchnata.

Gall hysbysebu effeithiol wneud argraff barhaol a datblygu ymwybyddiaeth hirdymor o'ch brand. Mae gennym wybodaeth gynhwysfawr am ein cynulleidfa o fyfyrwyr, ac mae ein cyfleoedd hysbysebu yn sicrhau bod ein cleientiaid yn cael y sylw mwyaf posibl.

Mae Dyfodol Myfyrwyr, sydd wedi'i lleoli yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr nodedig, yn cynnig cyfleoedd unigryw i gyrraedd cynulleidfaoedd o fyfyrwyr allweddol a gwerthfawr mewn amgylchedd hamddenol a chadarnhaol. Rydym yn cynnig ystod o atebion aml-sianel ac amlgyfrwng. Mae'r llwyfannau rydyn ni'n eu cynnig, sy'n cynnwys cyfleoedd i fyfyrwyr brofi eich brand a chyfleodd hysbysebu yn ogystal â chyfleoedd i fyfyrwyr drochi yn eich brand yn llwyr, yn eich galluogi chi i ymwneud â miloedd o fyfyrwyr trwy gydol eu hastudiaethau.

Dyma rhai o'r manteision allweddol a allwch gael o'n hopsiynau i adeiladu eich brand:

- Mae Dyfodol Myfyrwyr yn cynnig cyfle i frandiau gynnwys ac ysbrydoli ystod eang o fyfyrwyr.
- Byddwch yn elwa o allu cyrraedd ein cynulleidfa o fyfyrwyr hynod ddymunol.
- Mae gan Ddyfodol Myfyrwyr y creadigrwydd a'r cyfleusterau i ddod â brandiau'n fyw.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i chi hyrwyddo eich busnes. Nod y pecyn hwn yw rhoi crynodeb i chi o'r opsiynau sydd ar gael, ond mae ein staff wrth law i roi cyngor ar becynnau pwrpasol a chynigion ychwanegol. Os hoffech drafod yr opsiynau, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'n tîm ymgysylltu â chyflogwyr: employerservices@caerdydd.ac.uk



# Cyfleoedd **Brandio**



£1,000 + TAW

### Ystafelloedd Cyfarfod yn Hwb Dyfodol Myfyrwyr

**Cyfle:** Noddi un o dair ystafell yn ein hwb Dyfodol Myfyrwyr sydd newydd ei ddylunio. Byddwn yn gosod plac ar y drws gyda stondin taflenni ar gael ar gyfer eich deunyddiau marchnata.

**Hyd:** 1 flwyddyn




£350 + TAW

### Hysbysebu eich Sefydliad ar Sgriniau Digidol yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr

**Cyfle:** Hysbysebwch eich sefydliad neu unrhyw swyddi gwag sydd gennych ar ein 2 sgrin ddigidol yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr blaenllaw. Bydd hysbysebion yn ymddangos ar ein sgriniau am fis. Dim ond 2 gyflogwr ar y tro sy'n gallu manteisio ar y cyfle yma er mwyn gwneud y gorau o weledd eich brand ar y campws.

**Hyd:** 1 mis





£250 + TAW

### Hysbyseb Ffenestr yn ein Hwb Dyfodol Myfyrwyr yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr

**Cyfle:** Addurnwch ffenestr yn ein hwb Dyfodol Myfyrwyr yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr. Gall hyn gynnwys baneri dros dro, posteri, taflenni a nwyddau i helpu i arddangos eich brand. Gallwch gynnal gystadleuaeth neu gall myfyrwyr cyrchu ragor o wybodaeth trwy ddefnyddio codau QR. Mae'r cyfle yma ar gael i un cyflogwr yr wythnos yn unig.

**Hyd:** 1 wythnos

# Cyfleoedd **Brandio**





£1,500 + TAW

## Noddi Gwisg ein Cynorthwywyr Dyfodol Myfyrwyr

**Cyfle:** Gallwch noddi gwisg ein Cynorthwywyr Dyfodol Myfyrwyr (staff sy'n fyfyrwyr) ac arddangos eich logo drwy gydol y flwyddyn academaidd. Mae ein Cynorthwywyr Dyfodol Myfyrwyr wedi'u hyfforddi i gynnig cyngor ac arweiniad i'w cyd-fyfyrwyr ar eu CV, llythyrau eglurhaol a'u proffiliau LinkedIn. Maent hefyd yn llysgenhadon brand ar gyfer tîm Dyfodol Myfyrwyr ac maen nhw'n mynd i ddigwyddiadau dros-dro ac yn hysbysebu mewn darlithoedd tra'n gwisgo eu hwdi noddedig. Gan fod hwn yn gyfle i hyrwyddo eich brand am flwyddyn academaidd gyfan, gwnewch yn siŵr i gofrestri eich diddordeb erbyn Gorffennaf 2024.

**Hyd:** tymor y gwanwyn a'r hydref

---




£100 + TAW

## Baner Hysbysebu ar Blatfform 'Target' at sylw myfyrwyr

**Cyfle:** Hyrwyddwch eich brand gyda baner ar ein platfform Target Connect ar gyfer myfyrwyr. Cyfeiriwch fyfyrwyr at eich gwefan, eich hysbyseb swydd neu gynnal cystadleuaeth i hybu welededd eich brand. Mae'r cyfle hon ar gael ar adegau dethol yn ystod y flwyddyn academaidd yn unig. Mae'r cyfle yma ar gael i un cyflogwr yr wythnos yn unig.

**Hyd:** 1 wythnos

# Cyfleoedd **Brandio**




£300 + TAW

### Noddi Canllaw Beth Sydd Ymlaen Dyfodol Myfyrwyr

**Cyfle:** Bob tymor, mae Dyfodol Myfyrwyr yn cynhyrchu Canllaw Beth Sydd Ymlaen er mwyn hyrwyddo'r holl ddigwyddiadau, gweithdai a gweithgareddau gyrfaoedd sydd ar gael i bob myfyriwr. Mae dros 2,000 o fyfyrwyr yn gweld y ddogfen hon bob tymor. Gwnewch eich cyflogwr yr unig hysbyseb yn y canllaw digidol. Mae'r cyfle yma ar gael i un cyflogwr yr wythnos yn unig.

**Hyd:** 1 tymor




£350 + TAW

## Cyflogwr Dan Sylw

**Cyfle:** Mae'r cyfle yma yn cynnwys hysbyseb ddigidol, arddangosfa mewn ffenestr a chynnal digwyddiad cyflogwr dros dro mewn lleoliad o'ch dewis. Mae'r cyfle yma ar gael i un cyflogwr yr wythnos yn unig.

**Hyd:** 1 wythnos



# Cyfleoedd **Brandio**

£1,000 + TAW

## Noddi Gwobr Caerdydd




**Cyfle:** Mae Gwobr Caerdydd yn galluogi myfyrwyr i ddatblygu sgiliau a rhinweddau cyflogadwyedd allweddol, gan roi mantais gystadleuol iddynt dros eu cyfoedion. Mae'r Wobr yn paratoi'r rhai sy'n cymryd rhan ar gyfer y broses o recriwtio graddedigion ac yn efelychu elfennau allweddol o'r broses. Mae'r rhaglen yn hunanreoledig, sy'n golygu bod myfyrwyr yn gwneud dewisiadau sy'n cyd-fynd â'u datblygiad a'u llwybr gyrfa eu hunain.

Mae cwblhau'r Gwobr Caerdydd yn llwyddiannus yn rhoi'r canlynol i fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd:

- Hunanymwybyddiaeth sydd yn helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau am gyfeiriad eu gyrfa yn y dyfodol.
- Dealltwriaeth o'r sgiliau a'r nodweddion y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt gan raddedigion
- Enghreifftiau ymarferol o'u sgiliau i'w rhoi i ddarpar gyflogwyr
- Dealltwriaeth dda o sut mae graddedigion yn cael eu recriwtio
- elfen ychwanegol ar eu CV, sy'n dangos ymgysylltiad â'u potensial o ran gyrfa.
- dealltwriaeth o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) yn y gweithle.

Dyma'r buddion y byddwch yn cael o ddod yn noddwr:

- meithrin ymwybyddiaeth gadarnhaol o'ch brand ar draws y brifysgol.
- rhoi cipolwg o sut beth yw gweithio yn eich sefydliad a'r cyfleoedd amrywiol sydd ar gael.
- rhannu awgrymiadau da a'r arferion gorau i fyfyrwyr sy'n llywio'ch proses ymgeisio.
- meithrin perthnasoedd cadarnhaol trwy ymgysylltu â myfyrwyr dawnus ar gamau cynnar cynllunio eu gyrfa.





# Cyfleoedd **Brandio**

Sut byddwn yn hyrwyddo eich sefydliad

- Cynnwys eich logo ar dudalen hafan llwybr y Wobr.
- Cynnwys eich logo ar holl hysbysebion Gwobr Caerdydd mewn Sesiynau Gyrfa.
- Cynnwys eich logo ar hysbysebion Gwobr Caerdydd ar sgriniau plasma ledled y campws.
- Cynnwys eich logo ac enw'r cwmni ar 2 gylchlythyr Gwobr Caerdydd bob tymor.
- 1 dudalen yn y llwybr sy'n dangos wybodaeth am eich cwmni.
- Rhoi awgrymiadau a chyngor ar sgiliau cyflogadwyedd i'w cynnwys yn llwybr y Wobr (dewisol).
- Recordio a chefnogi cynnwys ar sgiliau cyfweld (dewisol).
- Cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb ar y campws gyda chyfleoedd hyrwyddo ychwanegol i fyfyrwyr sy’n gwneud Wobr Caerdydd (dewisol).

*Gan fod hwn yn gyfle i hyrwyddo eich brand am flwyddyn academaidd gyfan gwnewch yn siŵr i gofrestru eich diddordeb erbyn Mai 2024.*

**Hyd:** 1 flwyddyn academaidd




**Dros 1100**
cofrestriadau myfyrwyr i'r Wobr yn 22/23

*Rwy'n meddwl bod gwobr Caerdydd wedi fy ngwthio i fod yn fwy ystyriol o ddatblygiad fy ngyrfa. Cyn hynny, doedd gen i fawr o syniad beth oeddwn i eisiau ei wneud, byddwn i'n anwybyddu'r ffaith y byddaf yn graddio'r flwyddyn nesaf! Mae cwblhau gwobr Caerdydd wedi fy annog i gofio y gallaf barhau i wella priodoleddau cyffredinol y mae cyflogwyr yn edrych amdanynt yn gyffredinol.*

Jennifer Lorna Patterson
MBiomed Gwyddorau Biofeddygol